**CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 £'000 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 £'000 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 £'000 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros £'000 | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor / (Tan) Wariant Net £'000 | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - - Ddychwelyd i falansau cyffredinol, - Trosglwyddo i gronfa benodol, - Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu - Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cymdeithasol a Tai** | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Canolog** | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol | 4,146 | 4,156 | 4,137 | (19) | | (19) | Rhagwelir mân danwariant ar y pennawd yma bellach, yn dilyn penderfyniad y Bwrdd yn yr adolygiad ail chwarter i glustnodi £253k o'r arbedion 'Categori C' a gyflawnwyd yma er mwyn ategu'r rhaglen cynlluniau arbedion tuag at y £16 miliwn. Hefyd, yn yr adolygiad ail chwarter, cofier cymeradwyodd y Bwrdd trosglwyddiad cyllideb o £50k ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant a welwyd ar gyllidebau'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. | |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Canolog =** | **4,146** | **4,156** | **4,137** | **(19)** | **0** | **(19)** | | |
| **Gwasanaeth Plant a Theuluoedd** | | | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,329 | 2,829 | 2,800 | (29) | | (29) | Ar hyn o bryd, rhagwelir mân danwariant ar y pennawd yma, oherwydd penderfyniad y Bwrdd yn yr adolygiad ail chwarter i drosglwyddo ar sail unwaith ac am byth £500k o gyllideb i'r gwasanaeth yma o'r gwasanaeth Oedolion, er mwyn lleddfu'r sefyllfa gorwariant a ragwelwyd ar y pryd. | |
| Maethu drwy Asiant | 1,573 | 1,603 | 1,606 | 3 | | 3 | Sefyllfa llêd niwtral, eto yn dilyn penderfyniad y Bwrdd yn yr ail chwarter i drosglwyddo ar sail unwaith ac am byth £30k o gyllideb i'r gwasanaeth yma o'r Gwasanaeth Oedolion, er mwyn lleddfu'r lefel gorwariant a ragwelwyd ar y pryd. | |
| Gwasanaeth Ol -16 | 993 | 1,031 | 1,090 | 59 | | 59 | Sefyllfa gorwariant sy'n gyson â'r gorwariant o £66k a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter yn dilyn penderfyniad y Bwrdd i drosglwyddo ar sail unwaith ac am byth £40k o gyllideb i'r gwasanaeth yma o'r Gwasanaeth Oedolion, i leddfu'r lefel gorwariant o £106k a ragwelwyd ar y pryd. | |
| Cynlluniau Cefnogol | 853 | 852 | 777 | (75) | | (75) | Rhagwelir cynnydd o (£23k) yn y sefyllfa tanwariant ers yr adolygiad ail chwarter, oherwydd rhai achosion yn dod i ben, arbedion staffio unwaith ac am byth ar rai cynlluniau, a lleihau gwariant ar gofal ysbaid. | |
| Eraill | 7,927 | 7,934 | 8,043 | 109 | | 109 | Tafluniad sy'n cynnwys gorwariant a thanwariant ar nifer o benawdau, yn cynnwys costau staffio ychwanegol unwaith ac am byth o £42k ar y Gwasanaeth Gweithredol, £29k ar y Tim Lleoliadau, a £29k ar Wasanaeth Arbenigol. | |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Plant a Theuluoedd =** | **13,675** | **14,249** | **14,316** | **67** | **0** | **67** | Ar y cyfan o'r Gwasanaeth Plant, rhagwelir gostyngiad o (£99k) yn y sefyllfa gorwariant o £166k a ragwelwyd yn yr ail chwarter. Cofier fod y gorwariant net o £67k ar ôl cymryd i ystyriaeth effaith yr holl drosglwyddiadau cyllidol a gymeradwywyd gan y Bwrdd i leddfu'r sefyllfa gorwariant a ragwelwyd 3 mis yn ôl. | |

## CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

### Gwasanaeth Oedolion

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 £'000 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 £'000 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 £'000 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros £'000 | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor / (Tan) Wariant Net £'000 | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - - Ddychwelyd i falansau cyffredinol, - Trosglwyddo i gronfa benodol, - Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu - Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Pobl Hŷn | 18,828 | 18,568 | 18,309 | (259) | | (259) | Rhagwelir cynnydd o (£220k) yn y sefyllfa tanwariant o (£39k) a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, ac hyn ar ôl trosglwyddo £320k i'r Gwasanaeth Plant. O fewn y tanwariant net o (£259k), cynhwysir tanwariant o (£358k) ar Gartrefi Annibynol (cynnydd o (£150k) oherwydd lleihad yn y nifer o leoliadau), 'gorwariant' o £13k mewn incwm perthnasol (sef gwelliant o (£143k) ers yr ail chwarter oherwydd setliad ychwanegol o hawliadau ffioedd blynyddoedd blaenorol), a gorwariant o £265k ar Ofal Cartref (cynnydd o £204k ers yr ail chwarter, oherwydd cynnydd yn gofyn am y gwasanaeth). Dylid ystyried y cost uwch o ddarparu Gofal Cartref yng nghyd destun y gostyngiad mewn nifer lleoliadau mewn Cartrefi Annibynnol, ac hefyd effaith cyfyngu cyfraniadau unigolion i £50 yr wythnos. Mae'r tanwariant net (£259k) hefyd yn cynnwys tanwariant o (£62k) ar Ofal Dydd (gwelliant o (£75k) ers yr ail chwarter), a thanwariant o (£63k) ar Therapi Galwedigaethol. | |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,192 | 2,089 | 1,965 | (124) | | (124) | Cynnydd o (£81k) yn y sefyllfa tanwariant o (£43k) a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, yn bennaf oherwydd gostyngiad o (£87k) mewn gwariant ar Ofal Cartref, yn sgil gostyngiad yn y nifer achosion, ac hefyd lleihad mewn costau rhai achosion eraill.<br>Mae'r sefyllfa tanwariant (£124k) yma ar ôl trosglwyddo £100k i'r Gwasanaeth Plant yn yr ail chwarter. | |
| Anabledd Dysgu | 10,889 | 10,741 | 10,784 | 43 | | 43 | Gwariant ychwanegol net o £105k ers y sefyllfa tanwariant o (£62k) a ragwelwyd yn yr ail chwarter. Mae'r rhagolwg o orwario £43k ar ôl trosglwyddo £147k ar sail unwaith ac am byth i'r Gwasanaeth Plant.<br>O fewn y gorwariant net £43k, cynhwysir tanwariant o (£28k) ar Hosteli (lleihad o £23k ers yr ail chwarter), tanwariant o (£83k) ar Preswyl a Nyrsio (lleihad o £26k), tanwariant o (£53k) ar Llety Cefnogol (lleihad o £10k), a tanwariant o (£85k) ar Gynlluniau Cefnogol (lleihad o £4k).<br>Hefyd, rhagwelir gorwariant o £217k ar Wasanaethau Dydd (cynnydd o £16k), a methiant i gyflawni'r Cynllun Arbedion Hanesyddol yn llawn, sy'n cyfrannu gorwariant o £83k pellach o fewn y £43k net. | |
| Iechyd Meddwl | 3,144 | 3,070 | 3,115 | 45 | | 45 | Cynnydd o £29k yn y sefyllfa gorwariant o £16k a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter sy'n cynnwys arbedion staffio unwaith ac am byth mewn Gweithwyr Maes o (£42k) (gostyngiad o £38k ers yr ail chwarter), tanwariant o (£39k) mewn Preswyl a Nyrsio (cynnydd o (£25k)), a gorwariant o £99k ar Llety Cefnogol (cynnydd o £18k). | |
| Eraill | 2,788 | 2,857 | 2,896 | 39 | | 39 | | |
| **Cyfanswm Oedolion =** | **37,841** | **37,325** | **37,069** | **(256)** | **0** | **(256)** | | |

**CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - - Ddychwelyd i falansau cyffredinol, - Trosglwyddo i gronfa benodol, - Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu - Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | |
| **Tai** | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Digartrefedd | 828 | 808 | 810 | 2 | | 2 | Ar hyn o bryd, rhagwelir mân orwariant, sydd yn welliant o (£19k) ar y gorwariant o £21k a ragwelwyd yn yr ail chwarter. Er bod y ddarpariaeth Llety Dros Dro yn parhau i ddangos gorwariant o £39k, fe welwyd arbedion staffio unwaith ac am byth ychwanegol o (£20k). | |
| Tai Sector Breifat | 3,642 | 3,639 | 3,608 | (31) | | (31) | Sefyllfa tanwariant a gyflawnwyd yn bennaf o arbedion staffio, yn rhannol oherwydd trosiant staff ac hefyd drwy wireddu'r cynllun arbedion 2012/13 ymlaen llaw. | |
| Eraill | 730 | 730 | 704 | (26) | | (26) | | |
| **Cyfanswm Tai =** | **5,200** | **5,177** | **5,122** | **(55)** | **0** | **(55)** | | |
| **Cyfanswm Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol =** | **60,862** | **60,907** | **60,644** | **(263)** | **0** | **(263)** | Ar gyfer yr Adran gyfan, rhagwelir cynnydd o (£60k) yn y sefyllfa tanwariant a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter. | |
| **Darparu a Hamdden** | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol | 0 | (8) | (36) | (28) | | (28) | Erbyn hyn, rhagwelir gostyngiad o £11k yn y sefyllfa tanwariant o (£39k) roeddem yn darogan yn yr ail chwarter. Mae'r tanwariant (£28k) yn bennaf oherwydd arbedion staffio. | |
| Gwasanaeth Darparu | | | | | | | | |
| Gwariant | 28,934 | | | | | | Gostyngiad sylweddol yn y sefyllfa gorwariant o £106k a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, yn cynnwys gorwariant o £18k ar Arlwyo (gostyngiad o (£1k)), gorwariant o £14k ar Glanhau a Gofalu (gostyngiad o (£3k)), tanwariant o (£5k) ar Preswyl a Dydd (gwelliant o (£59k)), a tanwariant o (£27k) ar Gwasanaethau Cymunedol (gwelliant o (£42k)) yn bennaf oherwydd cynnydd mewn incwm. | |
| Incwm | (28,943) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Gwasanaeth Darparu =** | **(9)** | **24** | **25** | **1** | | **1** | | |
| Gwasanaeth Hamdden | 4,517 | 4,543 | 4,585 | 42 | | 42 | O sefyllfa niwtral yn yr ail chwarter, fe ragwelir bellach sefyllfa gorwariant o £42k, yn cynnwys nifer o wahaniaethau, yn bennaf, gorwariant ar gostau gweithredol mewn rhai canolfannau, gorwariant unwaith ac am byth ar ddatblygu ystafell codi pwysau mewn un canolfan, a gorwariant ar bryniant offer ffitrwydd. Er nad ydi rhai canolfannau wedi cyrraedd y lefelau incwm disgwyliedig, fodd bynnag, gwelwyd llwyddiant mewn un canolfan i gynyddu'r defnydd a'r lefel incwm o ganlyniad i farchnata ychwanegol. | |
| **Cyfanswm Darparu a Hamdden =** | **4,508** | **4,559** | **4,574** | **15** | **0** | **15** | | |

**CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i -<br>- Ddychwelyd i falansau cyffredinol,<br>- Trosglwyddo i gronfa benodol,<br>- Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu<br>- Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | |
| **Addysg** | | | | | | | | |
| Cludiant | 4,585 | 4,567 | 4,628 | 61 | | 61 | Mân gynnydd o £5k yn y sefyllfa gorwariant o £56k a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, yn bennaf oherwydd methiant i gyflawni'r targed arbedion perthnasol i godiad incwm ar ddisgyblion ôl-16 yn llawn yn y flwyddyn ariannol yma, ar ôl ei weithredu o Fedi 2011. | |
| Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg Heblaw mewn Ysgol | 2,317 | 2,200 | 1,988 | (212) | | (212) | Cynnydd o (£50k) yn y sefyllfa tanwariant o (£162k) a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, yn cynnwys (£74k) yn y maes Cefnogi Ymddygiad Disgyblion, (£40k) drwy newid trefniadau gwaith y Gwasanaeth Addysg Cartref, (£48k) drwy resymoli trefniadau'r Unedau Anhwylderau Iaith, a (£50k) yn bennaf o arbedion unwaith ac am byth trosiant staff, ynghyd a chynlluniau arbedion 2012/13 a wireddwyd ymlaen llaw. | |
| Strategaeth Cynhwysiad | 0 | 0 | 131 | 131 | | 131 | Mae'r Adran wedi ymrwymo i brosiect Strategaeth Cynhwysaid hefo tair ysgol mewn cynllun peilot yn rhedeg o Medi 2010 hyd at Mawrth 2012. Fe ariannwyd y gost perthnasol drwy dderbyniad grant allanol am y cyfnod Medi 2010 hyd at Awst 2011, gyda'r gobaith o ddenu adnoddau o gyllideb y Cynllun Tair Blynedd er mwyn cwrdd â gweddill y gost yn 2011/12. Hyd yma, ni lwyddwyd i dderbyn arian ychwanegol ar gyfer eleni, ac felly am y tro, fe'i arianni'r hefo tanwariant a welir ar benawdau adrannol eraill. | |
| Eraill | 16,691 | 16,446 | 16,449 | 3 | | 3 | | |
| Ysgolion Datganoledig | 62,750 | 62,892 | 62,892 | 0 | | 0 | | |
| **Cyfanswm Addysg =** | **86,343** | **86,105** | **86,088** | **(17)** | **0** | **(17)** | | |
| **Economi a Chymuned** | | | | | | | | |
| Rheolaeth | 1,452 | 1,427 | 1,400 | (27) | | (27) | Cynnydd o (£5k) yn y sefyllfa tanwariant o (£22k) a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, yn bennaf oherwydd cyflawni rhaglen arbedion 2012/13 ymlaen llaw, ynghyd a mân danwariant pellach ar nifer o benawdau eraill. | |
| Cefnogi Busnes | 75 | 108 | 84 | (24) | | (24) | Cynnydd o (£9k) yn y sefyllfa tanwariant o (£15k) a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, yn cynnwys arbedion trosiant staff, gorwariant ar gostau gweithredol unedau busnes, a derbyniad incwm rhent ychwanegol. | |
| Parciau Gwledig | 177 | 158 | 144 | (14) | | (14) | Gostyngiad o £7k yn y sefyllfa tanwariant a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gorwariant net ym Mharc Glynllifon yn dilyn colled incwm rhent o'r unedau. | |
| Morwrol | (241) | (260) | (239) | 21 | | 21 | Mân gynnydd o £8k yn y sefyllfa gorwariant o £13k a ragwelwyd yn flaenorol, yn bennaf oherwydd gwariant uwch o £26k ar gynnal a chadw, a derbyniad incwm ffioedd uwch o (£19k) ar Harbyrau a Thraethau. | |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 1,087 | 1,136 | 1,101 | (35) | | (35) | Cynnydd o (£20k) yn y sefyllfa tanwariant o (£15k) a ragwelwyd yn yr ail chwarter, oherwydd arbedion trosiant staff. | |
| Eraill | 3,419 | 3,540 | 3,548 | 8 | | 8 | | |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned =** | **5,969** | **6,109** | **6,038** | **(71)** | **0** | **(71)** | | |

## CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 £'000 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 £'000 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 £'000 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros £'000 | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor / (Tan) Wariant Net £'000 | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - <br>- Ddychwelyd i falansau cyffredinol, <br>- Trosglwyddo i gronfa benodol, <br>- Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu <br>- Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol (cynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd)** | | | | | | | | |
| Cynnal Priffyrdd a Goleuo | 10,362 | 10,473 | 10,487 | 14 | | 14 | Ar sail gwariant 9 mis o'r flwyddyn, rhagwelir sefyllfa lled niwtral, ond gallasai'r darlun newid yn gyflym iawn pe bai gofynion 'cynnal gaeaf' yn gwaethygu yn y chwarter olaf. Hyd yma, fe welwyd gaeaf weddol fwyn, sy'n rhoddi llai o bwysau yn erbyn y ddarpariaeth gyllidol berthnasol. Os bydd y darlun yma yn parhau tan ddiwedd mis Mawrth, yna byddai modd i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol roi tanwariant mewn cronfa ar gyfer ariannu gwaith cyfalaf angenrheidiol ym maes Gwastraff mewn blynyddoedd dilynol. | |
| **Maes Gwastraff** | | | | | | | | |
| Gwaredu Gwastraff | 3,770 | 3,778 | 3,926 | 148 | | 148 | Ers yr adolygiad ail chwarter, gwelir cynnydd o £64k yn y lefel gorwariant sy'n cynnwys costau treth tirlenwi uwch, oherwydd rhagwelir byddwn yn disgyn yn fyr o'r lefel targed ailgylchu mewnol, ynghyd â chostau uwch o waredu gwastraff coed a gwastraff peryglus. | |
| Safleoedd Mwynderau | 844 | 770 | 621 | (149) | | (149) | Sefyllfa tanwariant, sy'n arbediad unwaith ac am byth eleni oherwydd oedi cyn agor safle mwynderau Dolgellau, a ragwelir bellach i agor yn mis Chwefror. | |
| Casglu Gwastraff ac Ail Gylchu | 4,078 | 4,395 | 4,208 | (187) | | (187) | Rhagwelir tanwariant ar y pennawd yma oherwydd llithriad yn y rhaglen waith cylchdeithiau gwastraff bwyd, yn bennaf oherwydd oedi cyn derbyn cerbydau pwrpasol newydd. | |
| Gwastraff Masnachol | 184 | 184 | 372 | 188 | | 188 | Ni lwyddwyd i gyrraedd y targed ailgylchu ac o ganlyniad fe welir gorwariant sylweddol ar gostau gwaredu a'r costau tirlenwi perthnasol. Bwriedir adolygu'r sefyllfa'n gyflawn wrth sefydlu ffioedd gwastraff masnachol ar gyfer 2012/13. | |
| Safleoedd Gwaredu | 4,194 | 4,202 | 4,191 | (11) | | (11) | Gostyngiad o (£120k) yn y lefel gorwariant o £109k a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, oherwydd gostyngiad o (£56k) mewn costau gweithredol, a chynnydd mewn incwm o (£64k). | |
| Eraill (Gwastraff) | 747 | 578 | 631 | 53 | | 53 | | |
| **Cyfanswm Maes Gwastraff =** | 13,817 | 13,907 | 13,949 | 42 | 0 | 42 | | |
| Priffyrdd a Bwrdesitrefol - Eraill (yn cynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd) | 6,014 | 6,028 | 5,984 | (44) | | (44) | | |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol =** | **30,193** | **30,408** | **30,420** | **12** | **0** | **12** | | |

## CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - - Ddychwelyd i falansau cyffredinol, - Trosglwyddo i gronfa benodol, - Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu - Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | |
| **Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)** | | | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 686 | 727 | 873 | 146 | | 146 | Gostyngiad o (£23k) yn y sefyllfa gorwariant o £169k a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, yn bennaf oherwydd, cynnydd mewn incwm ffioedd. | |
| Gorfodaeth | 455 | 462 | 425 | (37) | | (37) | Cynnydd o (£21k) yn y sefyllfa tanwariant o (£16k) a ragwelwyd yn flaenorol, oherwydd derbyniad incwm ffioedd ychwanegol. | |
| Meysydd Parcio | (1,009) | (874) | (831) | 43 | | 43 | Gostyngiad o (£36k) yn y sefyllfa gorwariant o £79k a adroddwyd yn yr ail chwarter, oherwydd gwelliant yn yr incwm ffioedd parcio, ynghyd â mân ostyngiad mewn costau gweithredol. | |
| Cludiant Integredig | 22 | 26 | 77 | 51 | | 51 | Amcangyfrifir cost gweithredol net uwch na ragwelwyd yn wreiddiol, ond deallaf fod adolygiad o drefniadau'r Adran i geisio sicrhau datrusiad i'r sefyllfa erbyn 2012/13. | |
| Gwarchod y Cyhoedd | 2,392 | 2,520 | 2,306 | (214) | | (214) | Gostyngiad o £36k yn y sefyllfa tanwariant o (£250k) a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter (sy'n bennaf oherwydd arbedion swyddi gwag ymlaen llaw o ail-strwythuro), yn dilyn lleihad mewn incwm ffioedd o £11k, ynghyd â chostau gweithredol uwch o £25k. | |
| Eraill | 8,524 | 8,473 | 8,430 | (43) | | (43) | Mân tanwariant (£43k) ar nifer o bennawdau amrywiol. | |
| **Cyfanswm Rheoleiddio =** | **11,070** | **11,334** | **11,280** | **(54)** | **0** | **(54)** | | |
| **Ymgynghoriaeth** | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Ymgynghoriaeth | (567) | (489) | (400) | 89 | | 89 | Yn yr adolygiad ail chwarter, cymeradwyodd y Bwrdd gyllideb ychwanegol o £70k roedd yn caniatau i'r Adran ostwng y targed incwm yn ei cyllideb, gan leihau'r gyfradd prisio er mwyn ei cynorthwyo i fod yn fwy cystadleuol wrth geisio am waith newydd. Er hynny, rhagwelir gostyngiad pellach o £45k yn yr incwm ffioedd. | |
| Rheolaeth Adeiladu | 269 | 265 | 334 | 69 | | 69 | Gwelliant (£26k) yn y sefyllfa gorwariant £95k a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, yn bennaf oherwydd derbyniad incwm ffioedd ychwanegol o (£24k). | |
| Eraill | 864 | 875 | 898 | 23 | | 23 | | |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth =** | **566** | **651** | **832** | **181** | **0** | **181** | Mae rhagolygon cyllidebol diweddaraf yr Adran Ymgynghoriaeth yn siomedig, yn arbennig yn dilyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £70k yn Nhachwedd. | **Argymhellir** fod Pennaeth Ymgynghoriaeth yn adolygu'r holl drefniadau cyllidol perthnasol er mwyn ceisio datrys sefyllfa ariannol yr Adran. |

## CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i -<br>- Ddychwelyd i falansau cyffredinol,<br>- Trosglwyddo i gronfa benodol,<br>- Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu<br>- Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | |
| **Adnoddau Dynol** | | | | | | | | |
| Gwariant | 3,619 | | | | | | Sefyllfa sy'n gyson a'r tanwariant o (£68k) a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, ac yn deillio'n bennaf o danwariant o (£65k) yn yr Uned Gwasanaeth Cefnogol drwy wireddu eu targed arbedion yn gynnar, ac hefyd arbedion unwaith ac am byth ar gostau staff o ganlyniad i nifer uchel o absenoldebau mamolaeth. | |
| Incwm | (3,619) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Adnoddau Dynol =** | **0** | **337** | **267** | **(70)** | | **(70)** | | |
| **Cyllid** | | | | | | | | |
| Gwariant | 7,385 | | | | | | Gostyngiad o £34k yn y sefyllfa tanwariant o (£56k) a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, yn bennaf oherwydd costau uwch ar wasanaethau a chyflenwadau, a gostyngiad yn yr incwm disgwyliedig o adenill ffioedd gorchmynion llŷs hefo trethi annomestig, wedi estyniad y cynllun rhyddhad rhag trethi i fusnesau bychan. | |
| Incwm | (6,496) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Cyllid =** | **889** | **901** | **879** | **(22)** | | **(22)** | | |
| **Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | | | | | | |
| Gwariant | 6,063 | | | | | | Rhagwelwyd gorwariant o £97k yn yr adolygiad ail chwarter, yn bennaf oherwydd sefyllfa'r Uned Argraffdy oedd yn dangos diffyg o £147k. Erbyn hyn, mae'r sefyllfa wedi gwella rhywfaint, hefo'r Uned yn dangos cynnydd mewn incwm o (£10k). Fe gynhaliwyd adolygiad busnes o sefyllfa'r Uned yn ddiweddar ac mi fydd Pennaeth yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol yn cyflwyno cynigion perthnasol yn fuan.<br>Yn ychwanegol, mae'r darlun adrannol cyffredinol wedi ei gynorthwyo hefo arbedion staffio unwaith ac am byth o (£15k), a thanwariant pellach o (£13k) ar wasanaethau a chyflenwadau ar draws nifer o unedau. | |
| Incwm | (5,488) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Democratiaeth a Chyfreithiol =** | **575** | **638** | **697** | **59** | | **59** | | |

## CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 £'000 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 £'000 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 £'000 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros £'000 | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor / (Tan) Wariant Net £'000 | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i - <br>- Ddychwelyd i falansau cyffredinol, <br>- Trosglwyddo i gronfa benodol, <br>- Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu <br>- Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal Cwsmer** | | | | | | | | |
| Gwariant | 11,649 | | | | | | | |
| Incwm | (9,378) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Gofal Cwsmer =** | **2,271** | **2,509** | **2,404** | **(105)** | **65** | **(40)** | Erbyn hyn, rhagwelir cynnydd sylweddol o (£77k) yn y sefyllfa tanwariant roeddem yn darogan yn yr adolygiad ail chwarter. Mae'r sefyllfa gros (£105k) yn cynnwys tanwariant o (£111k) gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth, oherwydd arbedion staffio a gostyngiad mewn gwariant ar wasanaethau a chyflenwadau, tanwariant o (£31k) gan yr Uned Cyfathrebu, tanwariant o (£13k) gan Dîm y We (o fewn y Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer), a tanwariant o (£7k) gan Uned Prosesu Dogfennau'r Gwasanaeth Gwybodaeth. Hefyd fe ragwelir gorwariant o £41k ar gyflenwad teleffon canolog, a £21k gan yr Uned Argyfwng oherwydd methiant i wireddu cynlluniau arbedion fel a fwriadwyd. Oherwydd patrymau anwastad rhai agweddau o wariant yr Uned Technoleg Gwybodaeth o un flwyddyn i'r llall, er engraifft adnewyddu trwyddedau meddalwedd swyddfa traws-adrannol, mae Pennaeth yr Adran Gofal Cwsmer yn awyddus i sefydlu cronfa adnewyddu wrth gefn i allu ymateb i'r amgylchiadau a chynllunio ar eu cyfer. | **Argymhellir** trosglwyddo £65k ar gyfer sefydlu cronfa adnewyddu gofynion technoleg gwybodaeth, er mwyn gallu ymateb i batrymau gwariant anwastad ar faterion o natur corfforaethol neu traws-adrannol mewn blynyddoedd dilynol. |
| **Strategol a Gwella** | | | | | | | | |
| Gwariant | 6,150 | | | | | | | |
| Incwm | (5,246) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Strategol a Gwella =** | **904** | **789** | **737** | **(52)** | | **(52)** | Erbyn hyn, rhagwelir gostyngiad o £46k o'r sefyllfa tanwariant o (£98k) roeddem yn darogan yn yr adolygiad ail chwarter, gyda'r gostyngiad yma'n deillio'n bennaf o gynnydd o £9k ar gostau gwasanaethau a cyflenwadau gan yr Uned Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, £11k o wariant ychwanegol gan yr Uned Adolygiadau Strategol, £4k o wariant ychwanegol gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth, £14k o wariant ychwanegol gan yr Uned Polisi Tai, a lleihad o £6k mewn incwm gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth. | |
| **Tim Arweinyddiaeth** | | | | | | | | |
| Gwariant | 751 | | | | | | | |
| Incwm | (751) | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net Tim Arweinyddiaeth =** | **0** | **59** | **53** | **(6)** | | **(6)** | | |

**CYLLIDEB REFENIW 2011/12 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

## Cyllidebau Corfforaethol

| | Cyllideb Agoriadol 2011/12 £'000 | Cyllideb Arfaethiedig 2011/12 £'000 | Sefyllfa a Ragwelir 2011/12 £'000 | Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros £'000 | Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor / (Tan) Wariant Net £'000 | Eglurhad | Penderfyniadau: Ystyriaeth i -<br>- Ddychwelyd i falansau cyffredinol,<br>- Trosglwyddo i gronfa benodol,<br>- Cymeradwyo cyllideb ychwanegol, neu<br>- Cynnig gweithred penodol pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Treth y Cyngor (adroddir yma ar y gwahaniaeth yn unig) | 0 | 0 | 50 | 50 | | 50 | Ar gyfer cyllideb 2011/12 codwyd y gyfradd casglu tybiannol ar gyfer y Dreth Cyngor o 98% i 99%. Yn yr hinsawdd economaidd gyfredol, anodd yw darogan faint o drethdalwyr fydd yn medru / methu talu yn y pen draw, ond rhagwelir am y tro, gostyngiad o £50k yn y treth a gesglir (sy'n welliant o (£20k) ar y sefyllfa a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter). | |
| Derbyniad Llog Net | (700) | (722) | (832) | (110) | | (110) | Mae'r rhagolygon diweddaraf yn gyson â'r darlun rhagwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter, ac yn adlewyrchu cynnydd mewn derbyniad llôg net o (£110k) oherwydd llif arian a perfformiad ychydig gwell na'r disgwyl. Gwneir argymhelliad ar y mater ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. | |
| Cynlluniau Arbedion Corfforaethol | (838) | (1,045) | (855) | 190 | | 190 | Sefyllfa sydd fwy neu lai yn gyson â'r hyn a ragwelwyd yn yr ail chwarter, ac am y tro fe ragwelir na fydd £190k o'r targed corfforaethol wedi ei gyflawni eleni. | |
| Darpariaeth wrth gefn ar gyfer setliad cyflog 2011/12 | 998 | 998 | 0 | (998) | 998 | 0 | Wrth lunio cyllideb 2011/12, fe wnaethwyd darpariaeth ar gyfer elfen o ychwanegiad cyflog posib. Ymhellach i'r negodi cenedlaethol, ymddengys na fydd unrhyw gynnig perthnasol i'r staff, felly gellir rhyddhau'r ddarpariaeth i ddefnydd arall gan y Cyngor. | Gan fod pwysau parhaol am adnoddau cyfalaf ychwanegol, **argymhellir** fod y £998k yn cael ei ryddhau fel ychwanegiad tuag at ofynion o fewn y rhaglen cyfalaf. |
| Adennill Treth Tirlenwi a dalwyd i Cyllid a Thollau ein Mawreddi | 0 | 0 | (795) | (795) | 795 | 0 | Fe lwyddwyd yn ddiweddar i adennill rhan o'r treth tirlenwi a dalwyd mewn perthynas ag elfen o'r gwastraff a roddwyd ar safle tirlenwi. | Oherwydd sefyllfa mor ansicr mewn perthynas a chyllidebau i'r dyfodol, **argymhellir** fod £795k yn cael ei roddi mewn cronfa penodol wrth gefn, fel darpariaeth ariannu strategol i gynorthwyo ac i roddi rhywfaint o hyblygrwydd cyllidol i'r Cyngor. |
| Eraill | 15,759 | 14,416 | 14,416 | 0 | | 0 | | |
| **Cyfanswm Net Corfforaethol =** | **15,219** | **13,647** | **11,984** | **(1,663)** | **1,793** | **130** | | |
| **Cyfanswm (i bwrpas adolygu) =** | **219,369** | **218,953** | **216,897** | **(2,056)** | **1,858** | **(198)** | | |